# Defnyddio'r Gwiriwr targedau Glastir Uwch

## Cyflwyniad

Teclyn syml yw'r Gwiriwr all ddangos i chwi pa opsiynau rheoli a gwaith cyfalaf all eu cynnwys yn eich contract Glastir Uwch, cyn i'ch rheolwr contract ymweld â'r fferm.

Bydd y rheolwr contract yn edrych am gyfleoedd i gyflawni gweithredoedd ar gyfer bob targed drwy gyfuniad o opsiynau addas. Mae'r gwiriwr yn rhestru'r opsiynau sy'n gysylltiedig â phob targed sydd hefo'r **potensial** i gyflawni ar gyfer y targed arbennig yno.

Bydd y llythyr sy'n eich hysbysu eich bod wedi eich dewis ar gyfer ymweliad Glastir Uwch yn rhestru'r targedau cawsoch eich dethol am.

Os nad ydych eto wedi Mynegi Diddordeb ar gyfer Glastir Uwch, cyfeiriwch at y Mapiau Ardaloedd Targed. Gallent roi syniad o ba dargedau fydd yn berthnasol i'ch fferm chi.

## Sut i ddefnyddio'r gwiriwr

Cliciwch ar y blwch uchaf ar y llaw chwith dan y teitl "*dewiswch eich targed*" er mwyn dethol eich targed gyntaf o'r rhestr oddi tan y saeth.
Mewn blwch ar y llaw dde bydd disgrifiad o'r targed yn ymddangos.

Oddi tanodd, bydd dwy restr yn ymddangos; Opsiynau Rheoli ar y llaw chwith a Gwaith Cyfalaf ar y llaw dde. Gellir eu defnyddio o fewn y contract Glastir Uwch i gyflawni gweithred ar gyfer y targed yno. Mae'r cyfraddau talu hefyd yn cael eu cynnwys, unai ar £ yr uned (hectar, medr neu fedr sgwâr) neu fel canran o'r union gost.

Yr eitemau mewn **llythrennau bras** yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gyflawni mwy ar gyfer y targed. Gellir defnyddio'r eitemau arall ond fel arfer mewn cyfuniad gyda rhai o'r prif opsiynau a gwaith cyfalaf arall.

Gellwch fynd ymlaen i ddewis y targed nesaf drwy glicio ar y blwch eto i ddethol targedau pellach.

## Gwybodaeth bellach.

Fe sylwch fod opsiynau Glastir Sylfaenol yn cael eu cynnwys yn y rhestrau. Mae'r rhai sydd heb eu nodi gyda "x" ar gael fel opsiwn o fewn Glastir Uwch hefyd (hyd yn oed os ydych eisoes wedi ymgymryd â'r opsiwn yno o fewn Glastir Sylfaenol). Mae hefyd yn bosibl bod rhai o'r targedau eisoes wedi eu bodloni drwy'r opsiynau a ymgymerwyd ag yn Glastir Sylfaenol ac nid oes angen gwneud dim yn ychwanegol ar eu cyfer.

Mae'n bosibl gosod rhai o'r opsiynau rheoli Glastir Uwch ar ben yr opsiynau Glastir Sylfaenol sydd yn bod eisoes ar y fferm. Yn yr achosion yno bydd y taliad Glastir Uwch ar gyfer y parsel neu gae yno yn cael ei leihau i ystyried y taliad sydd eisoes yn cael ei wneud ar gyfer yr opsiwn Glastir Sylfaenol.

Mae'r gwiriwr yn rhoi peth arweiniad o be all fod yn eich contract Glastir Uwch. Mewn ambell achos mae rhai opsiynau yn gallu mynd yn groes i dargedau arall. Er enghraifft mae'r opsiynau rheoli a ddetholwyd ar gyfer y wiwer goch yn mynd i wahaniaethu rhwng ffermydd ar Ynys Môn (lle mai dim ond ychydig iawn o wiwerod llwyd sy'n bod) â gweddill Cymru (lle mae'r wiwer lwyd yn niferus). Bydd gwella cynefin y wiwer goch drwy greu cysylltiadau rhwng coedlannau bras deiliog o fantais i wiwerod coch ar Ynys Môn. Fodd bynnag, gall yr un gweithredoedd yng ngweddill Cymru helpu'r wiwer lwyd ledaenu i gadarnleoedd y wiwer goch.

Yn ystod eu hymweliad bydd eich rheolwr contract yn gweithio hefo chwi i ddewis pecyn addas o opsiynau a gwaith cyfalaf fydd yn cyflawni ar gyfer pob targed ac yn ymarferol i'ch fferm chwi.